**LC321**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 9) 2001

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu, yng Nghymru, newidiadau yn y cyfyngiadau ar fewnforio ac allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn 2001/518/EC sy'n diwygio Penderfyniad y Comisiwn 2001/356/EC ynghylch mesurau diogelu penodol mewn perthynas â chlwy'r traed a'r genau yn y Deyrnas Unedig ac yn diddymu Penderfyniad y Comisiwn 2001/172/EC.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i gynnal ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys tan ganol nos ar 20 Gorffennaf 2001 ac maent yn disodli Rheoliadau Rhif 8 sy'n cael eu diddymu.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylw Cyffredinol**

Fel yn achos y rheoliadau blaenorol yn y gyfres hon o reoliadau ar gyfyngiadau mewnforio ac allforio, uniaith Saesneg yw'r Rheoliadau hyn. Deellir nad oedd digon amser ar gael i ddrafftio'r Rheoliadau hyn yn ddwyieithog.

Mae'n ymddangos y dylai "erthygl" yn Rheoliad 14(3) ddweud "rheoliad".

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

23 Hydref 2001